



Dathlu'r 200

mewn 200 gair!



SUT MAE MYNEGI EIN HEMOSIYNAU DYFNAF, BOED LAWENYDD, TRISTWCH, HIRAETH NEU OBAITH AR Y THEMA GWAWR, GWAWRIO NEU **Y WAWR** A HYNNY MEWN CRYNO 200 O EIRIAU? DYNA OEDD YR HER I RAI O'N LLENORION GORAU FEL MUDIAD. A DYMA NI – TRI DARN O LÊN MEICRO AC UN STORI FER IAWN.

GWAWRIO

Mae'r wawr yn ei deffro'n raddol, garedig. Cyffyrddiad pluen, sy'n dod â gwên brin i'w gwefusau cwsg. Ond dydi hi ddim yn barod i ollwng ei breuddwyd eto. Mae hi mor ddiogel yn ei breichiau, a sŵn llepian hamddenol y tonnau gerllaw yn ei suo, suo. Ac yntau wrth ei hochr ar y garthen, wedi ymgolli mewn llyfr yn ôl ei arfer, ei lygaid yn chwilio'n ddyfal am yr ystyr rhwng y llinellau. Mae mor agos mae hi'n gallu arogl'i'r hufen haul ar ei groen a blasu ei hanfod.

Troi wedyn, gan bwyll bach, i edrych tua'r gorwel lle mae storm yn corddi.

A deffro. Ceisio datglymu ei chorff crwm, ymestyn ei bodiau anhyblyg. Estyn ei llaw allan yn reddfod. A'r gobennydd heb ei gyffwrdd wrth ei hochr yn gwestiwn syn, sy'n troi'n raddol yn ffaith ddirdynnol, galed. Dyrnu'r plu oer fel dynes o'i cho' a chanfod, wrth wneud hynny, nad oes arlliw o'i arogl ar ôl rhwng plygion y defnydd bellach.

Lluchio'r garthen oddi amdani ac estyn ei choesau dros yr erchwyn. Rhoi un droed simsan o flaen y llall nes cyrraedd y 'stafell molchi. Gorfodi ei hun i edrych i fyw llygad drych y bore bach; chwilio, chwilio am y mymryn lleiaf o ystyr rhwng llinellau chwâl ei byw.

ANNES GLYNN

Enillydd y Fedal Ryddiaith, Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 2004

YR ENW

Pan godais y ffôn, llais Anti Annie glywais i.

'Mair,' meddai'n ddiymdroi, 'dw i 'di bod yn holi Miriam beth fydd enw'r babi.'

Mae Anti Annie, er ei hoedran mawr, yn 'siarp fel nodwydd', meddai pawb; nodwydd sy'n pigo crachen ac yn rhwygo gwhead teulu ...

'Enw o'r byd o'i chwmpas, medde hi. Nonsens! Ti yw ei mam hi, dwed wrthi.'

'Wel hi a'i phartner ...'

'A ble ma hwnnw?'

'Dramor am fis, Anti Annie ...'

Ddwywaith gyda'r nos, ffoniodd eto'n awgrymu enwau; Mary Anna, ar ôl cyfnither briododd â gweinidog, a Meghan, am ei bod hi'n ffan mawr o'r teulu brenhinol.

Pan ganodd y ffôn ganol nos meddai Richard, 'Os taw Anti Annie sy 'na, dwed wrthi am ...'

'Mam?' Llais ofnus Miriam. 'Ma'r babi ar ei ffordd ...'

Gwingodd sbrings y gwely wrth i ni'n dau neidio allan.

Wrth i'r haul godi, gorweddai Miriam mewn stafell fach yn ysbyty Bronglais yn magu ei merch newydd-anedig, a minnau'n gwenu mewn cadair wrth eu hymyl. Safai Richard yn syllu trwy'r ffenest. Gwelwn ddagrau o ryddhad a balchder ar ei ruddiau; stwffiais hances bapur i'w law. Y tu allan pigai gwylan fawr ar y gwydr yn ddiamynedd.

'Mam,' meddai Miriam yn sydyn, 'dw i 'di meddwl am enw.'

Gwylan! meddyliais, gan ddychmygu ymateb Anti Annie.

'Dad a Mam, dwedwch helô wrth Gwawr,' meddai Miriam.

HELEN DAVIES

Enillydd Cadair Merched y Wawr, Gwyliau Haf 2011 a 2014.